Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Help os ydych yn sâl neu'n anabl

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau



Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Chwefror 2010.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

Cynnwys

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.....7

Beth yw Lwfans Cyflogaeth a Chymorth? 7

A allaf gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth? 7

A allaf gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os byddaf yn mynd dramor? 8

Oedran Pensiwn y Wladwriaeth 9

Sut y caiff fy lwfans ei weithio allan?.....9

Faint y byddaf yn ei gael?.....10

Beth os na allaf gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?.....11

A yw fy oedran yn effeithio ar faint y byddaf yn ei gael? 11

Beth os wyf wedi hawlio Budd-dal Analluogrwydd yn flaenorol?.....12

A fydd yn rhaid i mi dalu treth ar fy Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?.....12

Sut y caiff fy Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ei dalu? 12

Beth os wyf am i rywun gasglu fy Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar fy rhan?.....12

A oes rhaid i mi gael cyfweliad am waith? 13

Eich helpu i ddychwelyd i'r gwaith 14

Sut ydych yn asesu pa waith y gallaf ei wneud? 14

Beth sy'n digwydd yn fy asesiad meddygol? 14

Beth sy'n digwydd ar ôl fy asesiad meddygol? 15

Beth os nad ydw i'n cytuno â'r penderfyniad?.....17

A oes angen asesiad meddygol bob tro? 18

Beth os oes gennyf salwch terfynol? 18

Beth os oes gennyf gyflwr iechyd meddwl? 18

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn gwella neu'n gwaethygu? 19

Gwneud i waith dalu.....20

A allaf weithio os wyf yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?.....20

Beth sy'n digwydd os bydda i'n sâl eto? 21

A fyddaf yn cael yr un swm o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth â'r tro diwethaf? 21

Eich teulu a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth 22

Mae gennyf blant - a allaf gael rhagor o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth? 22

A allaf gael mwy ar gyfer fy ngŵr, gwraig neu bartner sifil? 22

A allaf barhau i gael mwy o lwfans os yw fy mhartner yn ennill arian? 22

Beth os wyf yn feichiog? 23

Beth os bydd fy ngŵr, gwraig neu bartner sifil yn marw? 24

Cael credydau arbennig os bydd eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn marw 24

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i bobl ifanc 25

A allaf gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os wyf rhwng 16 ac 19 oed? 25

A allaf gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os wyf rhwng 20 a 24 oed? 25

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn mynd dramor? 26

Budd-daliadau eraill 26

A fydd fy mudd-daliadau eraill yn effeithio ar fy Lwfans Cyflogaeth a Chymorth? 26

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth? 27

A yw pensiynau eraill yn effeithio ar fy Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?.....28

A allaf gael credydau Yswiriant Gwladol pan fyddaf yn sâl? 28

Help gyda chostau iechyd 29

Beth os wyf wedi gwneud cais am iawndal?.....29

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Beth yw Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?

Mae Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn helpu pobl gyda salwch neu anabledd i symud i mewn i waith. I gwsmeriaid newydd, mae wedi cymryd lle Budd-dal Analluogrwydd a Chymhorthdal Incwm a delir oherwydd salwch neu anabledd.

Tra eich bod yn cael y lwfans, rydym yn cynnig cymorth wedi'i bersonoli a help ariannol i chi. Byddwch yn gallu siarad ag ymgynghorydd personol â hyfforddiant arbennig. Byddwch hefyd yn gallu manteisio ar amrywiaeth eang o wasanaethau eraill wedi eu cynllunio i'ch helpu i symud i mewn i waith addas.

Os yw eich salwch neu anabledd yn effeithio'n ddifrifol ar eich gallu i weithio, gall y lwfans gynnig cymorth ariannol ychwanegol.

Sut i wneud cais

Ffôn:
0800 0121 888
Ffôn testun:
01248 674 808
Dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm

A allaf gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?

Mae'n bosibl y gallech gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os oes gennych salwch neu anabledd sy'n effeithio ar eich gallu i weithio, a:

- nid ydych yn gweithio neu rydych yn ddi-waith
- rydych yn hunangyflogedig

I gael rhagor o wybodaeth am gostau galwadau - gweler tudalen 30

- rydych yn gweithio i gyflogwr ond ni allwch gael Tâl Salwch Statudol, neu
- rydych wedi bod yn cael Tâl Salwch Statudol ond mae wedi dod i ben bellach.

Gallai Lwfans Cyflogaeth a Chymorth fod:

- yn seiliedig ar gyfraniadau os ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, neu
- yn seiliedig ar incwm os nad oes gennych ddigon o arian neu gynilion, neu nad ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Bydd ymgynghorydd o'r Ganolfan Byd Gwaith yn gallu dweud wrthych am eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Am 7 diwrnod cyntaf eich salwch, mae'n bosibl y bydd ond yn rhaid i chi ddweud wrthym pam eich bod yn sâl. Ar ôl hynny, bydd yn rhaid i chi gael nodyn salwch gan feddyg. Yna bydd yn rhaid i chi anfon eich nodyn salwch atom.

A allaf gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os dwi'n mynd dramor?

O dan rhai amgylchiadau mae'n bosibl y gallwch barhau i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth am hyd am 4 wythnos yn ystod absenoldeb dros dro dramor. Gallai hyd gynnwys:

- rhai teithiau byr

- os oes rhaid i chi fynd dramor i gael triniaeth feddygol, neu
- os ydych yn byw ag aelod o'r lluoedd arfog ac yn mynd gydag ef dramor.

Os ydych chi'n meddwl y gallai hyd fod yn gymwys i chi, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae ein cyfeiriad a'n rhifau yn eich llyfr ffôn.

Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Ni allwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os ydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Ar hyn o bryd yn 60 oed i ferched ac yn 65 oed i ddynion yw hyn. Am wybodaeth am newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ewch i dudalen 27.

Gallai dynion rhwng 60 a 65 oed fod â hawl i gael Gredyd Pensiwn a chael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau, ond nid Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn neu ewch i www.direct.gov.uk/pensiynau

Sut y caiff fy lwfans ei weithio allan?

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael cyfradd sylfaenol Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn ystod 13 wythnos gyntaf eu cais. Rydym yn galw hyn yn 'gam asesu'. Yn ystod yr amser hwn, rydym yn penderfynu a

fyddwch yn parhau i fod yn gymwys i gael y lwfans.

Mae'n bosibl y gallwn asesu hyn yn seiliedig ar eich salwch neu anabledd, neu gallai fod angen i chi gwblhau holiadur neu fynd am asesiad meddygol.

Os gwrthodwch gael asesiad meddygol, neu os nad ydych yn cymryd rhan lawn ynddo, gallai effeithio ar eich hawl i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Rydym hefyd yn asesu a fyddwch yn gallu cymryd camau i ddod o hyd i waith neu a yw eich salwch neu anabledd yn effeithio arnoch mor ddifrifol fel na fyddai'n rhesymol cymryd y camau hyn.

Ar ôl 13 wythnos, cyn belled â'ch bod yn dal i fod yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, byddwch yn symud i'r 'prif gam' ac yn cael lwfans cyfradd uwch.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Faint y byddaf yn ei gael?

Ni fyddwch yn cael unrhyw arian am 3 diwrnod cyntaf eich cais. Gelwir y rhain yn 'ddiwrnodau aros'. Mewn rhai achosion, efallai na fydd diwrnodau aros yn berthnasol, er enghraifft os ydych eisoes wedi cael diwrnodau aros fel rhan o gais blaenorol am fudd-dal neu gyfnod o Dâl Salwch Statudol.

Ar ôl hyn cewch gyfradd sefydlog am 13 wythnos gyntaf eich cais. Gallai cyfradd wahanol fod yn gymwys os oes gennych bartner. Rydym yn galw hyn yn 'gyfradd cyplau'.

Caiff y symiau eu newid ym mis Ebrill bob blwyddyn. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.direct.gov.uk/budd-daliadau neu cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael cyfraddau eleni.

Beth os na allaf gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?

Os na allwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, gallech dal gael credydau Yswiriant Gwladol am bob wythnos lawn na fyddwch yn gweithio. Mae'r credydau yn bwysig gan eu bod yn cyfrif tuag at hawliau budd-dal yn y dyfodol, gan gynnwys Pensiwn y Wladwriaeth.

A yw fy oedran yn effeithio ar faint y byddaf yn ei gael?

Yn ystod y cam asesu, mae cyfradd Lwfans Cyflogaeth a Chymorth person sengl yn uwch os ydych yn 25 oed neu drosodd.

Yn ystod y prif gam, mae cyfradd y person sengl yr un fath, waeth bynnag fo'i oed.

Beth os wyf wedi hawlio Budd-dal Anallu ogrwydd yn flaenorol?

Os byddwch yn rhoi'r gorau i gael Budd-dal Anallu ogrwydd am gyfnod, ac yna bod angen i chi ei hawlio eto, mae rhai amgylchiadau lle y gallech gael y budd-dal hwn yn lle Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mae hyn yn dibynnu ar faint yn ôl y cawsoch Fudd-dal Anallu ogrwydd ddiwethaf. Gofynnwch i ymgynghorydd egluro hyn i chi.

A fydd yn rhaid i mi dalu treth ar fy Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?

Mae Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n seiliedig ar gyfraniadau yn cyfrif tuag at eich incwm trethadwy. Cewch ragor o wybodaeth am dreth gan eich swyddfa dreth leol neu gan ymgynghorydd y Ganolfan Byd Gwaith.

Sut y caiff fy Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ei dalu?

Rydym yn talu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Dyma'r ffordd orau o gael eich budd-dal oherwydd gallwch ddewis sut a phryd yr hoffech gymryd arian allan o'ch cyfrif.

Beth os wyf am i rywun gasglu fy Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar fy rhan?

Gallech gael rhywun i gasglu eich budd-dal

ar eich rhan. Am help gyda hyn, siaradwch â'r banc neu'r gymdeithas adeiladu lle mae eich cyfrif. Os oes angen i chi benodi rhywun i ddelio â'r Ganolfan Byd Gwaith ar eich rhan, siaradwch ag ymgynghorydd y Ganolfan Byd Gwaith.

A oes rhaid i mi gael cyfweliad am waith?

Rhaid i'r rhan fwyaf o bobl gael cyfweliad ag ymgynghorydd personol i ystyried rhagolygon gwaith yn y dyfodol.

Hefyd, os bydd yr asesiad meddygol yn dangos y gallech ddechrau paratoi am waith tra'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, byddwn yn trefnu cyfres o gyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith i'ch helpu i ddod o hyd i waith.

Eich helpu i ddychwelyd i'r gwaith

Mae ymchwil yn dangos bod pobl yn well eu byd mewn gwaith. Mae gan waith nifer o fanteision - yn ariannol, ac o ran eich iechyd a'ch lles, eich hunanhyder a'ch rhagolygon chi a'ch teulu yn y dyfodol. Er enghraifft, mae pobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor neu bobl nad ydynt wedi gweithio erioed hyd at 3 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef o iechyd gwael na'r rhai sy'n gweithio.

Mae'r rhan hon o'r daflen yn sôn am sut rydym yn asesu eich salwch neu anabledd, a sut y mae hyn yn effeithio ar y gwaith y gallech ei wneud.

Sut ydych yn asesu pa waith y gallaf ei wneud?

Pan fyddwch yn gwneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, byddwch yn dechrau ar gam asesu 13 wythnos ac yn cael cyfradd budd-dal sylfaenol. Yn ystod y cam hwn, bydd angen i chi anfon nodiadau salwch atom. Fel rhan o'r cam hwn gallem ofyn i chi gymryd rhan mewn 'asesiad gallu i weithio', sy'n golygu cwblhau a dychwelyd holiadur a mynd am asesiad meddygol.

Beth sy'n digwydd yn fy asesiad meddygol?

Bydd gweithiwr iechyd proffesiynol, fel meddyg neu nyrs gofrestredig, yn asesu pa

mor dda y gallwch wneud pethau fel cerdded, eistedd a sefyll, defnyddio eich dwylo, gweld a chlywed. Os oes gennych gyflwr iechyd meddwl, bydd yn asesu sut y mae'n effeithio ar bethau fel eich tymer, y ffordd rydych yn ymddwyn, y ffordd rydych yn cysylltu â'r byd o'ch cwmpas, a'r ffordd rydych yn ymdopi â phethau o ddydd i ddydd.

Bydd yn cwblhau adroddiad meddygol. Bydd hwn yn mynd i'r swyddfa sy'n delio â'ch cais. Bydd yn ein helpu i benderfynu sut y mae eich salwch neu anabledd yn cyfyngu ar faint a'r math o gwaith y gallwch ei wneud, a ph'un a ydych yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Byddwn yn talu ffi'r bws, ffi trên neu gostau petrol i chi fynd i'r ganolfan feddygol a mynd adref.

Mae'n rhaid i chi fynd i'r asesiad a chymryd rhan lawn ynddo, neu caiff eich budd-dal ei effeithio. Os na allwch fynd i'r apwyntiad a nodir yn y llythyr y byddwn yn ei anfon atoch, cysylltwch â'r ganolfan feddygol ar unwaith.

Beth sy'n digwydd ar ôl fy asesiad meddygol?

Os byddwn yn canfod bod eich salwch neu anabledd yn cyfyngu ar eich gallu i weithio y tu hwnt i lefel benodol, byddwch yn symud i brif gam y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth o wythnos 14 eich cais.

Yn y prif gam hwn, byddwch yn cael cyfradd uwch o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ac yn mynd i un o 2 grŵp:

- I'r rhan fwyaf o bobl, lle byddwn yn meddwl y gallwch ddychwelyd i'r gwaith, byddwch yn cael cyfradd uwch y lwfans. Ond rhaid i chi gymryd rhan lawn mewn unrhyw gyfweliadau y byddwn yn eich gwahodd iddynt.
- Os oes gennych gyflwr sy'n effeithio'n ddifrifol ar beth y gallwch ei wneud, ni fyddwn yn disgwyl i chi gymryd rhan mewn unrhyw gyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith i gael cyfradd uwch y lwfans. Fodd bynnag, gallwch dal gymryd rhan ynddynt os ydych am wneud hynny.

Gallai'r asesiad meddygol ddod i gasgliad na fyddech yn cael trafferth gweithio. Os felly, ni fyddwn yn talu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i chi nac yn rhoi credydau Yswiriant Gwladol.

Os bydd hyn yn digwydd, gallech gael budd-dal gwahanol. I gael rhagor o wybodaeth:

- ewch i www.direct.gov.uk/budd-daliadau neu
- cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae ein cyfeiriad a'n rhifau ffôn yn eich llyfr ffôn.

Beth os nad ydw i'n cytuno â'r penderfyniad?

Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith o fewn mis i ddyddiad y llythyr penderfyniad. Os byddwch yn cysylltu â ni'n hwyrach, efallai na fyddwn yn gallu eich helpu.

Gallwch chi, neu rywun arall sydd â'r awdurdod i weithredu ar eich rhan:

- gofyn i ni egluro ein penderfyniad
- gofyn i ni ysgrifennu atoch gyda'r rhesymau dros ein penderfyniad
- gofyn i ni ailystyried ein penderfyniad (efallai eich bod o'r farn ein bod wedi esgeuluso rhai ffeithiau neu fod gennych fwy o wybodaeth i'w rhoi i ni sy'n effeithio ar ein penderfyniad), neu
- apelio yn erbyn ein penderfyniad i dribiwnlys annibynnol (ond mae'n rhaid iddo fod yn ysgrifenedig).

Gallwch wneud unrhyw rai o'r camau a restrir uchod, neu gallwch wneud pob un ohonynt.

I gysylltu â ni ewch i www.direct.gov.uk/cy neu edrychwch ar ein cofnod yn y llyfr ffôn.

A oes angen asesiad meddygol bob tro?

Mae ambell salwch ac anabledd mor ddifrifol fel y byddwn yn penderfynu p'un a allwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth heb i chi gael asesiad meddygol. Os bydd hyn yn berthnasol i chi, byddwn yn dweud wrthych.

Beth os oes gennyf salwch terfynol?

Mae rheolau arbennig os nad yw eich meddyg yn credu y byddwch yn byw am fwy na 6 mis. Mae'r rheolau hyn yn sicrhau y cewch gymaint o arian ag y gallwch. Os bydd hyn yn berthnasol i chi, siaradwch ag ymgynghorydd.

Beth os oes gennyf gyflwr iechyd meddwl?

Os oes gennych gyflwr iechyd meddwl, gallem ofyn i chi gwblhau holiadur am sut y mae hwn yn effeithio arnoch. Byddwn am wybod a oes gennych unrhyw broblemau iechyd eraill hefyd. Gallem siarad â'ch meddyg, ac efallai bydd yn rhaid i chi weld un o'n gweithwyr iechyd proffesiynol.

Gallai cyflwr iechyd meddwl effeithio ar eich tymer, y ffordd rydych yn ymddwyn, y ffordd rydych yn cysylltu â'r byd o'ch cwmpas, a'r ffordd rydych yn ymdopi â phethau o ddydd i ddydd. Dyma'r pethau y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu a allwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Gofynnwch i ymgynghorydd am help gyda'ch cais os oes gennych gyflwr iechyd meddwl.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn gwella neu'n gwaethygu?

Rhaid i chi ddweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith pan fyddwch yn dechrau gwella ar unwaith, a:

- gallwch wneud mwy, neu
- eich bod yn teimlo ychydig yn well dros gyfnod hirach o amser.

Gallech ddechrau teimlo'n well oherwydd:

- rydych wedi cael llawdriniaeth
- wedi defnyddio rhywbeth i'ch helpu gyda'ch salwch, neu
- rydych wedi dechrau cymryd meddyginiaeth newydd.

Rhaid i chi hefyd ddweud wrthym pan fydd eich anabledd neu salwch yn newid neu'n gwaethygu ar unwaith.

Chwilio am waith

Os ydych yn chwilio am waith, gallwch chwilio drwy ein rhestr o swyddi ar-lein yn www.direct.gov.uk/cy

Neu gallwch ein ffonio ar 0845 6067 890 (ffôn testun 0845 6044 022) i gael gweld pa swyddi sydd ar gael.

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm, Dydd Sadwrn 9am i 1pm

Gwneud i waith dalu

Un o nodau'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yw eich helpu i fod yn well eich byd mewn gwaith nag ar fudd-daliadau. Bydd eich ymgynghorydd personol yn eich helpu i weithio allan faint sydd angen i chi ei ennill o swydd fel na fyddwch yn colli allan.

Mae hefyd rai cynlluniau i'ch helpu i ddychwelyd i'r gwaith a bod yn well eich byd nag ar fudd-daliadau. Gofynnwch i ymgynghorydd ddweud wrthych am:

- Grant swyddi
- Credyd dychwelyd i'r gwaith
- Taliadau estynedig Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor
- hyfforddiant, a
- Credyd Treth Gwaith.

A allaf weithio os wyf yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?

Mae rhai mathau o waith y gallech ei wneud tra eich bod yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, sef:

- gwaith heb dâl, fel gwaith elusennol (gwaith gwirfoddol), neu
- 'gwaith a ganiateir' – gwaith y cewch ei wneud tra eich bod yn cael y lwfans a allai eich helpu i gael swydd yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am gostau galwadau - gweler tudalen 30

Gallwch ofyn i ymgynghorydd ddweud wrthych beth yw gwaith a ganiateir, neu gallwch ddarllen amdano ar ein gwefan yn www.direct.gov.uk/cy

Beth sy'n digwydd os byddaf yn sâl eto?

Os byddwch yn sâl eto neu na allwch ddal ati i weithio, gallech gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth fel o'r blaen, o dan y 'rheolau cysylltu'.

Nid yw'r 3 'diwrnod aros' cyntaf yn gymwys i geisiadau a wneir o dan reolau cysylltu. Mae hyn yn golygu y gallwch gael y lwfans o ddiwrnod cyntaf eich salwch os ydych yn ei hawlio eto o fewn 12 wythnos i gais blaenorol. Ond mae'n rhaid i chi gael nodyn salwch o ddiwrnod cyntaf eich salwch, neu gallech golli arian.

A fyddaf yn cael yr un swm o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth â'r tro diwethaf?

Gallwch gael yr un swm o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ag y cawsoch y tro diwethaf os ydych wedi bod yn ôl yn y gwaith am 12 wythnos neu lai.

Os ydych wedi bod yn ôl yn y gwaith am dros 12 wythnos, gallech dal gael yr un swm o fudd-dal eto. Gofynnwch i ymgynghorydd egluro hyn i chi.

Eich teulu a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Os ydych yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, mae'n bosibl y gallwch gael mwy o arian fel y gallwch barhau i gefnogi'r bobl sy'n dibynnu arnoch.

Mae gennyf blant – a allaf gael rhagor o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?

Ni allwch hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ychwanegol i blant, ond mae'n bosibl y gallwch gael Credyd Treth Plant. I gael rhagor o wybodaeth am gredydau treth, ewch i www.hmrc.gov.uk

A allaf gael mwy ar gyfer fy ngŵr, gwraig neu bartner sifil?

Os byddwch yn gymwys am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, gallem ei dalu ar y gyfradd cyplau i gwmpasu eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil.

Gofynnwch i ymgynghorydd y Ganolfan Byd Gwaith egluro sut y gallech gael mwy o lwfans. Gallem ofyn i chi ddangos tystysgrif geni, priodas neu bartneriaeth sifil.

A allaf barhau i gael mwy o lwfans os yw fy mhartner yn ennill arian?

Os yw eich partner yn byw gyda chi ac yn gweithio, gallai faint y mae'n ei ennill effeithio ar eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.

Gofynnwch i ymgynghorydd y Ganolfan Byd Gwaith i ddweud wrthych sut y bydd enillion eich partner yn effeithio ar eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Beth os wyf yn feichiog?

Os ydych yn feichiog, gallech gael Tâl Mamolaeth Statudol gan eich cyflogwr.

Gallwch barhau i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyn belled ag y gallwch brofi eich bod dal yn rhy sâl neu anabl i weithio. Pan gewch Tâl Mamolaeth Statudol byddwch yn cael llai o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth bob wythnos. Ond, pan fyddwch yn rhoi'r gorau i Dâl Mamolaeth Statudol, byddwch yn cael y lwfans eto yn llawn.

Os ydych yn feichiog ac na allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol, gallech gael Lwfans Mamolaeth. Bydd hyn yn effeithio ar eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Ni allwch gael y ddau yn llawn ar yr un adeg, felly cewch gymysgedd o'r budd-daliadau sy'n talu'r mwyaf i chi. Rhaid i chi anfon eich nodyn salwch atom i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Os na allwch weithio o hyd oherwydd salwch neu anabledd pan ddaw eich Lwfans Mamolaeth i ben, gallwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. I sicrhau bod hyn yn digwydd, rhaid i chi anfon eich nodyn salwch atom.

Beth os bydd fy ngŵr, gwraig neu bartner sifil yn marw?

Gallech gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth o hyd, ond gallai unrhyw fudd-dal profedigaeth a gewch effeithio ar swm y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a gewch, felly gofynnwch i ymgynghorydd egluro hyn.

Cael credydau arbennig os bydd eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn marw

Os nad oes gennych ddigon o Yswiriant Gwladol i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a bod eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn marw, gallech gael credydau arbennig a fydd yn eich galluogi i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

I gael credydau arbennig, rhaid bod gennych salwch neu anabledd ac mae'n rhaid eich bod wedi rhoi'r gorau i gael budd-daliadau penodol i'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil pan fyddant farw. Ni allwch gael credydau arbennig os yw eich budd-dal profedigaeth yn dod i ben oherwydd eich bod:

- yn priodi eto
- yn ffurfio partneriaeth sifil arall, neu
- yn dechrau byw â phartner newydd.

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i bobl ifanc

Mae rheolau arbennig i bobl ifanc. Os ydych rhwng 16 ac 19 oed, neu eich bod o dan 25 oed ac yn mynychu coleg neu brifysgol, yna dylech ddarllen yr adran hon.

A allaf i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os wyf rhwng 16 ac 19 oed?

Gallech gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau os ydych rhwng 16 ac 19 oed. Rhaid nad oeddech yn gallu gweithio oherwydd salwch neu anabledd am o leiaf 28 wythnos. Nid oes ots os nad ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Gelwir y rheolau hyn yn ‘ddarpariaethau ieuenctid’ Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Mewn rhai achosion, gallech gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, hyd yn oed os nad ydych wedi bod yn sâl am 28 wythnos. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â’r Ganolfan Byd Gwaith.

A allaf gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os wyf rhwng 20 a 24 oed?

Os ydych rhwng 20 a 24 oed, gallech gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os oeddech ym maes addysg neu hyfforddiant yn ystod y 3 mis diwethaf cyn eich pen-blwydd yn 20 oed ac na allwch weithio mwyach oherwydd salwch neu anabledd.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn mynd dramor?

Os cewch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'ch bod yn bwriadu mynd dramor, rhaid i chi ddweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith ar unwaith i weld a fydd yn effeithio ar eich lwfans.

Os yw'n bosibl i chi gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth pan fyddwch dramor, gallwch drefnu i rywun arall gael eich taliad i chi tra eich bod dramor. Neu, gallwch gael eich talu pan fyddwch yn dychwelyd neu, mewn rhai amgylchiadau, gellir ei dalu dramor.

Budd-daliadau eraill

A fydd fy mudd-daliadau eraill yn effeithio ar fy Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?

Os ydych yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, yn dibynnu p'un a yw'n seiliedig ar gyfraniadau neu incwm, gallech gael rhai budd-daliadau o hyd, er enghraifft:

- Lwfans Gweini
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Lwfans Gofalwr
- Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor
- Pensiwn Rhyfel Sylfaenol
- Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu arian rhodd, neu

- taliadau gan eich cyflogwr (gallai hyn gynnwys cyflog, tâl salwch y cwmni neu fudd-dal gan eich undeb.

Ni allwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os cewch un neu fwy o'r canlynol:

- Lwfans Ceisio Gwaith
- Pensiwn y Wladwriaeth
- arian oherwydd na allwch weithio
- arian i hyfforddi
- Tâl Salwch Statudol
- Cymhorthdal Incwm, neu
- Budd-dal Analluogrwydd.

Dylech siarad ag ymgynghorydd os oeddech yn cael Budd-dal Analluogrwydd o fewn y 2 flynedd ddiwethaf.

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth?

Ni allwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar ôl i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yw'r oedran ieuengaf y gallwch hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth. Ar hyn o bryd, mae'r oedran y caiff dynion a merched hawlio eu Pensiwn y Wladwriaeth yn

wahanol. Gall merched sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2010 gael eu Pensiwn y Wladwriaeth yn 60 oed, a dynion yn 65 oed.

Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched yn cynyddu i 65 oed fel y bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr un fath i ddynion a merched erbyn 2020. Caiff y newid hwn ei gyflwyno'n raddol o 2010. I gael rhagor o wybodaeth am ddiwygio pensiynau ewch i www.direct.gov.uk/pensiynau

A yw pensiynau eraill yn effeithio ar fy Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?

Gallai arian o bensiynau neu gynlluniau yswiriant iechyd eraill effeithio ar faint o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth y gallech ei gael. Bydd hyn yn dibynnu ar faint o arian y bydd eich pensiwn neu gynllun yn ei roi i chi. Gofynnwch i ymgynghorydd os ydych yn meddwl y gallai hwn fod yn berthnasol.

A allaf gael credydau Yswiriant Gwladol pan fyddaf yn sâl?

Am bob wythnos lawn (o ddydd Sul i ddydd Sadwrn) o'ch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, gallech gael credydau Yswiriant Gwladol. Gall y credydau hyn eich helpu i gael arian arall yn y dyfodol, fel Pensiwn y Wladwriaeth.

Help gyda chostau iechyd

Gallech gael help gyda rhai costau iechyd gan gynnwys presgripsiynau'r GIG, triniaeth ddeintyddol y GIG a rhai costau teithio os ydych ar incwm isel neu'n cael:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm
- Cymhorthdal Incwm, neu
- Credyd Pensiwn.

I gael rhagor o wybodaeth am help gyda chostau iechyd gan y GIG, ewch i'r wefan ar gyfer yr ardal rydych yn byw ynddi:

- Cymru
  www.nhsdirect.wales.nhs.uk/healthinformation
- Lloegr
  www.dh.gov.uk/helpwithhealthcosts
- Yr Alban
  www.scotland.gov.uk/publications

Beth os wyf wedi gwneud cais am iawndal?

Os byddwch yn ennill iawndal am eich anabledd a hefyd yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, gallai'r lwfans gael ei dynnu o'ch iawndal.

I gael rhagor o wybodaeth am hawlio iawndal, gallwch gysylltu â'r Undeb Adfer Iawndal.

Gwefan: www.dwp.gov.uk/welsh/cru

Ffôn: 0191 225 2119

Ar agor dydd Llun i ddydd Iau 8.30am i 4.30pm, dydd Gwener 8.30am i 4pm.

Costau galwadau

Roedd y costau yn gywir ar y dyddiad sydd ar gefn y daflen hon. Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 4c y funud gyda thâl o 9c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffonau Testun

Mae'r rhifau ffôn testun a ddarparwn yn rhai ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd llefaru neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Mae Directgov yn rhoi gwybodaeth gan adrannau llywodraeth y DU am bob math o bynciau. I gael gwybod mwy am ba fudd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w cael, ewch i
www.direct.gov.uk/cynghoryddbudd-daliadau

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Llun y clawr o dan drwydded gan www.johnbirdsall.co.uk

ISBN 978-1-84763-682-9
DWP1001W | f2.3 (Chwefror 2010) | v2.3 (February 2010)